**Paul yn Athen yn cyflwyno Crist**

A hwn, fe ymddengys, dan Bontius Pilatus
Groeshoeliwyd yn warthus a bregus ar bren
Yn ninas Caersalem; fel caethwas a gosbem
Neu leidr a ddinoethem yn Athen.

Ond taerai yr Iddew bach tanllyd, a brithflew,
Â'r drem fel fflam olew, fod llwydrew y llawr
A'r bedd wedi methu â'i ddal a'i orchfygu;
Ddod Christos i fyny o'i fynawr.

A gafodd e gyffur rhag angau a dolur
Na wybu'n hathronwyr, meddylwyr mor ddoeth?
A gwyd un o'r beddrod?  Mae'r Iddew yn gosod
Gwŷr Athen yn hynod o annoeth.
Ac yna, fel ynfyd, pregethodd Groes waedlyd,
A ffiaidd – fod bywyd a gwynfyd trwy'i gwerth!
Ni chlywais yn ddiau am ddim damcaniaethau
Mor ffôl am ein duwiau, a diwerth.

Ond meddwl di, Glaucon, os gwir ei ystraeon,
Y fath lon newyddion i ddynion a ddaeth:
Y Bedd mor ddiwenwyn â sarff heb ei cholyn,
A lladd ein mawr elyn, Marwolaeth;

A'r Duw nid adwaenir yn Arglwydd a gerir,
Yn Dad a anwylir.  Fe genir ei gân
Mewn byd heb ryfeloedd gan blant yr holl diroedd;
Yn filoedd a miloedd y'i molan.

Mi gredaf fel Panlos, ddod gwawr ar ein hirnos,
Pwy bynnag oedd Christos, mae'n dangos Duw'n Dad.
Ond rheswm athronydd â'i wyrthiau ni chyd-ffydd,
– O'i fedydd i'w syn Atgyfodiad.

***A. E. Jones (Cynan)***